CYNLLUN ACHREDU AMGUEDDFEYDD Y DU

FFURFLEN ACHREDU AMGUEDDFEYDD BOB DWY FLYNEDD AR GYFER 2009

Nodiadau ar gyfer Amgueddfeydd

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.

Dylai'r Ffurflen hon gynnwys y cyfnod rhwng 2007-2009.

Diben y Ffurflen

- Bydd **Amgueddfeydd ag Achrediad Llawn** yn dangos eu bod yn dal i fodloni meini prawf Achrediad Llawn, a'u bod yn mynd i'r afael ag unrhyw Feysydd i'w Gwella sydd dal heb eu datrys.
- Bydd **Amgueddfeydd ag Achrediad Dros Dro** yn dangos eu bod yn mynd i'r afael â'u Camau Gweithredu Gofynnol ac yn gweithio i ennill Achrediad Llawn.

Bydd un ffurflen yn cael ei hanfon i bob amgueddfa sy'n rhan o'r Cynllun Achredu. Bydd enw, rhif RD a statws yr amgueddfa nodi ar y dudalen gyntaf.

Mae fersiwn wag o'r ffurflen ar gael o wefan y Cyngor MLA yn:

http://www.mla.gov.uk/what/raising_standards/accreditation/Retaining_your_award.

NI FYDD angen i amgueddfeydd yn y categorïau canlynol lenwi Ffurflen Bob Dwy Flynedd:

- Amgueddfeydd sydd wedi cael Achrediad Llawn neu Achrediad Dros Dro ers 21 Chwefror 2008
- Amgueddfeydd sydd wedi cyflwyno cais am Achrediad ers mis Ionawr 2008
- Amgueddfeydd sydd wedi cael gwahoddiad i wneud cais am Achrediad ers mis Ionawr 2008
- Amgueddfeydd sydd wedi, neu a fydd yn cael gwahoddiad i gyflwyno cais am Achrediad yn 2009

Rhaid i bawb arall anfon ffurflen bob dwy flynedd wedi'i llenwi i'r Cyngor MLA erbyn 30 Medi 2009, gan ddefnyddio'r amlen bwrpasol.

Sylwer mai dim ond ar gyfer deunydd sy'n pwyso hyd at 100g y mae'r amlen yn ddilys. Defnyddiwch stampiau ychwanegol os oes angen.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gael mwy o wybodaeth o wefan y Cyngor MLA, neu gallwch gysylltu â Sarah Waldron yn sarah.waldron@mla.gov.uk; 0121 345 7315.

Adran 1 - Hunanasesu
Dylai amgueddfeydd ddangos unrhyw feysydd sydd wedi gweld newid sylweddol ers eu cais gwreiddiol am Achrediad. Dylid darparu gwybodaeth yn nodi manylion y newidiadau hynny, a sut y mae'n dal i gydymffurfio â'r Safon Achredu.

Adran 2 – Cynnydd o ran cofnodi
Cyn llenwi'r adran hon, gwiriwch y llythyr mwyaf diweddar ichi ei dderbyn, sy'n sôn am unrhyw Feysydd i'w Gwella y mae'r Panel Achredu wedi gofyn amdanynt. Darparwch fanylion eich cynnydd tuag at fodloni'r Camau Gweithredu Gofynnol neu'r Meysydd i'w Gwella a nodwyd. Dylai hynny gynnwys unrhyw geisiadau am estyniad, gan ddarparu rhesymau llawn am y cais.

Adran 3 – Gwybodaeth Ariannol
Anfonwch y gyllideb neu'r gyfres ddiweddaraf o gyfrifon sydd gennych. Nid oes angen oedi cyn llenwi'r Ffurflen tra bod cyfres newydd o gyfrifon yn cael eu paratoi.

Adran 4 – Rhagynllunio (Tudalen 10 y Safon Achredu)
Rydym yn disgwyl y bydd gan amgueddfeydd eu systemau eu hunain o adrodd yn rheolaidd i'w corff llywodraethu neu bwyllgor rheoli am eu cyflawniadau. Mae'n debyg y bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn flynyddol, ac yn cynnwys y cynnydd a wnaed tuag at fodloni eu hamcanion, fel y nodwyd yn eu Blaengynlluniau. Dylai copïau o'r adroddiadau hyn fod yn rhan o'r Ffurflen Bob Dwy Flynedd.

Nid oes angen paratoi adroddiad yn arbennig ar gyfer dibenion Achredu.

Os nad yw amgueddfa yn siŵr a fydd ei system adrodd yn bodloni'r gofyniad hwn, dylai gysylltu â'i chynghorydd rhanbarthol am gyngor.

Adran 5 – Datganiad
Dylai'r uwch swyddog perthnasol yn eich sefydliad lofnodi hwn, e.e. Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Rheolwr yr Amgueddfa, y Curadur etc.

Adran 6 – Amgueddfeydd â Chynghorydd Curadurol
Os oes gan eich amgueddfa Gynghorydd Curadurol, llenwch Adrannau 1-5 a rhowch y ffurflen, ac unrhyw ddogfennau ategol a'r amlen bwrpasol, i'ch Cynghorydd cyn gynted â phosibl, er mwyn i Adran 6 gael ei llenwi.